Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r Wasg

Dyddiad: **4 Awst 2020**

Teitl: Cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2020/21

Bydd £171.5 miliwn yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Mae'r dyraniad yn cynnwys £78.4 miliwn ar gyfer cyllid ymchwil cylchol, ac mae'r gweddill yn cael ei ddarparu i brifysgolion a darparwyr eraill i gefnogi addysgu cyrsiau gradd rhan-amser, cyrsiau gradd amser llawn mewn pynciau drud a chost uchel, prentisiaethau gradd, datblygiadau cyfalaf, ac arloesi ac ymgysylltu.

Mae'r dyraniad cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 £21 miliwn yn is nag a ragwelwyd yn flaenorol oherwydd diwygiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'w dyraniadau cyllideb gwreiddiol mewn ymateb i bandemig Covid-19. Mae hyn yn golygu nad yw CCAUC ond wedi gallu cymhwyso peth o'r cyllid ychwanegol a ddisgwyliwyd ar gyfer arloesi ac ymgysylltu, pynciau cost uwch, darpariaeth cyrsiau gradd rhan-amser, darpariaeth ymchwil ôl-raddedig a'r premiwm anabledd, yr ymgynghorwyd arnynt yn rhan o setliad adolygiad cyllido Diamond.

Fodd bynnag, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 22 Gorffennaf y byddai darparwyr addysg uwch yn cael mynediad at Gronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch ar gyfer Cymru, gwerth £27 miliwn. Nid yw'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i gynnwys yn nyraniadau heddiw.

Pwrpas y gronfa ar wahân hon yw cynorthwyo prifysgolion i gynnal swyddi addysgu, ymchwil a gwasanaethau myfyrwyr, buddsoddi mewn prosiectau i gefnogi'r adferiad economaidd ehangach, a chefnogi myfyrwyr sy'n dioddef caledi ariannol. Bydd CCAUC yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer dyrannu arian ohoni.

Bydd y £171.5 miliwn ar gyfer 2020/21 yn cael ei ddyrannu fel a ganlyn:

Cyllid sydd ar gael i'w Ddyrannu			
	Blwyddyn Academaidd	Blwyddyn Academaidd	Blwyddyn Academaidd
Gwariant cyllid	Cylchlythyr 2019/20 £ miliwn	**2019/20 diwygiedig** **£ miliwn**	**Cylchlythyr 2020/21** **£ miliwn**
Ymchwil[1]	£76.2	£84.8	£78.4
Arloesi ac Ymgysylltu[2]		£7.5	£7.5
Addysgu cyrsiau gradd amser llawn[3], a TAR	£20.8	£20.4	£26.8
Addysgu rhan-amser[4]	£26.5	£27.8	£29.2
Cyfanswm y cyllid cylchol sylfaenol	**£123.5**	**£140.5**	**£141.9**
Mentrau strategol	£7.0	£11.2	£4.9
Iechyd a lles gan gynnwys iechyd meddwl	£0	£3.8	£2.0
Refeniw cyllid ymchwil	£0	£2.1	£0
Prentisiaethau gradd	£6.3	£6.8	£9.0
Cyrsiau ôl-radd a addysgir - cymorth dros dro ar gyfer cyrsiau meistr a bwrsariaethau[5]	£2.1	£5.0	£3.7
Cyfanswm y Cyllid a Gaiff ei Wario ar Raglenni	**£138.9**	**£169.4**	**£161.5**
Cyfalaf	**£10**	**£11.2**	**£10**
Cyfanswm	**£148.9**	**£180.6**	**£171.5**

Yn dilyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd mis Mawrth 2020, cynyddodd cyfanswm y dyraniad yn y flwyddyn academaidd flaenorol (2019/20) o'r £148.9 miliwn a ragwelwyd i £180.6 miliwn. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i ddyraniadau pellach wedi'u targedu, a amlinellwyd

[1] Yn cynnwys cyllid ymchwil Ymchwil Ansawdd (QR) sy'n seiliedig ar ansawdd, cyllid ymchwil ôl-raddedigion, a Sêr Cymru.

[2] Yn cynnwys Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) yn 2020/21 a'r Gronfa Datblygu'r Gallu i Arloesi yn 2019/20.

[3] Yn cynnwys y premiwm pynciau drud, y premiwm pynciau cost uwch, y premiwm fesul pen ac anabledd (2020/21 yn unig). Hefyd yn cynnwys cyllid heb ei gadarnhau ar gyfer lleoedd meddygol ychwanegol.

[4] Yn cynnwys addysgu cyrsiau rhan-amser a chyrsiau ôl-radd a addysgir, a chymorth ychwanegol ar gyfer y Brifysgol Agored.

[5] Cymorth dros dro a ddarparwyd drwy CCAUC am flwyddyn yn 2018/19 cyn gweithredu pecyn cymorth addysgu cyrsiau ôl-radd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfer 2019/20. Roedd cyllid 2019/20 ar gyfer myfyrwyr a oedd yn parhau â'u cwrs meistr rhan-amser a addysgir. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer myfyrwyr cymwys drwy'r cynlluniau bwrsariaeth cymhellol ar gyfer cyrsiau ôl-radd a addysgir.

mewn llythyrau hysbysu ynghylch trefniadau cyllido diwygiedig a gafodd CCAUC oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Blaenoriaethau 2020/21

Ymchwil

Cyllid **ymchwil ansawdd (QR)**, i gefnogi seilwaith ymchwil darparwyr AU. Fe'i dyrennir ar sail canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF 2014), lle ystyriwyd bod bron i draean o'r ymchwil a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru 'yn flaenllaw yn y byd'.

Cymorth ar gyfer **arloesi ac ymgysylltu,** drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru sydd newydd ei sefydlu ar gyfer masnacheiddio, gweithgareddau a ysgogir gan incwm, cymorth ar gyfer datblygu sgiliau a thyfu busnes newydd, a chenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cyllid Hyfforddiant Ymchwil Ôl-raddedig (PGR), er mwyn helpu i ddatblygu ymchwilwyr hynod fedrus.

Addysgu amser llawn, gan gynnwys pynciau drud a chost uwch

Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid hwn ei ddarparu ar ffurf premiwm pynciau drud (ESP) – cyllid ychwanegol i gefnogi cyrsiau gradd amser llawn mewn meddygaeth glinigol a deintyddiaeth glinigol ac yn y celfyddydau perfformio. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer pynciau cost uwch (HCS), sef meddygaeth a deintyddiaeth anghlinigol, gwyddoniaeth a pheirianneg, technoleg, gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura.

Yn 2019/20 dechreuodd CCAUC weithredu cynigion adolygiad Diamond o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllido Myfyrwyr a oedd yn ymwneud â chyllido addysg uwch. Yn unol â hynny, yn 2019/20 cynyddodd CCAUC yr ESP, a dechreuodd ddarparu cyllid ar gyfer pynciau cost uwch. Yn 2020/21 mae CCAUC yn darparu £4.4m arall ar gyfer HCS gan greu cyfanswm o £7.2m.

Mae CCAUC wedi ailgyflwyno premiwm cyllido i gefnogi myfyrwyr anabl syn dilyn TAR a chyrsiau gradd amser llawn, sydd werth £1.5 miliwn yn 2020/21.

Mae cyllid addysgu amser llawn hefyd yn cynnwys cyllid 'fesul pen' ar gyfer myfyrwyr ar gwrs gradd amser llawn a TAR ac ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau ôl-radd a addysgir.

Addysgu rhan-amser

Mae'r cyllid hwn yn cyfrannu at gost cyrsiau rhan-amser. Mae'n cynnwys cyllid premiwm (atodol) o £4.9 miliwn i gydnabod llwyddiannau darparwyr wrth recriwtio a chadw myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig ar gyrsiau gradd rhan-amser, £393k i gefnogi myfyrwyr anabl ôl-radd amser llawn a rhan-amser, ac £82k i gefnogi myfyrwyr ar gyrsiau gradd rhan-amser sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae hefyd yn cynnwys peth cyllid 'fesul pen' ar gyfer darpariaeth gradd ran-amser a darpariaeth ôl-radd a addysgir, sy'n cydnabod y gost o gofrestru pob myfyriwr unigol. Dyfernir hyn i bob myfyriwr a addysgir waeth beth fo'r dull neu'r lefel addysgu, ac mae'n berthnasol i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-radd a addysgir sy'n astudio'n amser llawn yn ogystal â rhan amser.

Prentisiaethau gradd

Mae cyllid ar gael yn 2020/21 ar gyfer prentisiaethau gradd digidol, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch.

Cyllid strategol

Dyma symiau amrywiol o gyllid a ddarperir i gefnogi nifer o fentrau strategol bwysig, gan gynnwys rhaglenni parhaus fel Ymgyrraedd yn Ehangach, sy'n gwella mynediad i fyfyrwyr wedi'u tangynrychioli, a chyfraddau cadw'r myfyrwyr hynny; a GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith.

Iechyd a lles

Eleni, bydd £2 filiwn yn cael ei ddarparu i sefydliadau er mwyn cefnogi iechyd a lles, gan gynnwys iechyd meddwl.

Cyllid cyfalaf

Mae hyn yn cyfrannu at gost datblygu ystâd y darparwyr AU yn effeithiol ac at wella ei heffeithlonrwydd.

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Bu modd inni ddyrannu £181 miliwn yn 2019/20 yn sgil dechrau cynyddu cyllid ar gyfer addysg uwch ar sail argymhellion adolygiad Diamond. Roedd hyn yn sylweddol uwch na'r ffigur a ragwelwyd o £149 miliwn, a adroddwyd y llynedd. Eleni, rydym yn croesawu'r £171 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith craidd prifysgolion a

cholegau o ran ymchwil ac addysgu, ynghyd â iechyd a lles myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl, arloesi ac ymgysylltu a datblygu'r ystâd.

"Rydym yn deall yr heriau economaidd parhaus a geir yng nghanol argyfwng iechyd byd-eang, a bod hyn wedi effeithio ar gyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd felly'n croesawu cyflwyno'r Gronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch newydd, gwerth £27 miliwn. Mae'r gronfa honno'n cydnabod effaith negyddol argyfwng Covid-19 ar y sector addysg uwch. Bydd y cyllid hwn yn atgyfnerthu'r cymorth i fyfyrwyr, ac yn helpu i sicrhau rôl addysg uwch yn yr adferiad economaidd a chymdeithasol.

"Yn rhan o'n seilwaith cenedlaethol, mae prifysgolion Cymru eisoes wedi dangos eu bod yn hollbwysig er mwyn wynebu'r heriau o'n blaen er mwyn adeiladu cenedl ar ôl Covid-19. Bydd ymchwil, arloesi, twf sgiliau a chyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth oll yn rhan o hyn, gan addysgu myfyrwyr a sicrhau profiadau iddynt sydd o safon fyd-eang, a rheoli eu pwysau ariannol eu hunain ar yr un pryd.

"Mae'n hollbwysig parhau i fuddsoddi mewn darparwyr addysg uwch. Maent yn chwarae rhan allweddol er mwyn annog symudedd cymdeithasol, ac wedi'u hymwreiddio yn eu cymunedau. Drwy gydweithio â busnesau, gallant gynnig addysg a hyfforddiant sy'n ymateb i anghenion lleol a chenedlaethol, ac maent yn gyflogwyr o bwys ledled y wlad. Ond er mwyn gallu bodloni'r holl ddisgwyliadau hyn, mae'n rhaid iddynt fod yn gadarn a chryf. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gydnabod gwerth addysg uwch, a byddwn yn parhau i gyflwyno ein hachos o blaid cynnal a chynyddu'r cyllid a fuddsoddir, fel bo modd parhau i weithredu argymhellion cyllido adolygiadau Diamond a Reid wrth i fwy o arian ddod ar gael."

Diwedd

Cyswllt Emma Rączka, Uwch Reolwr Cyfathrebu,

029 2085 9667 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Tabl 6: Cymhariaeth rhwng cyllid blwyddyn academaidd 2019/20 a blwyddyn academaidd 2020/21. Dyfynnwyd o gylchlythyr W20/20HE

	Allocations 2019/20 [1] (£)								Allocations 2020/21 [1] (£)								Change 2019/20 to 2020/21 (£)	Percentage change 2019/20 to 2020/21
HE institutions	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Innovation and engagement funding[6] (£)	Mitigation funding and additional performance element funding[5] (£)	**Total 2019/20[4] (£)**	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Innovation and engagement funding[6] (£)	Mitigation funding and additional performance element funding[5] (£)	**Total 2020/21[4] (£)**		
University of South Wales	4,522,259	1,243,690	3,533,756	1,630,256	251,455	684,770	585,240	**12,451,426**	4,306,015	1,114,465	4,583,969	1,530,192	281,040	636,059	585,240	**13,036,981**	585,555	4.7%
Aberystwyth University	320,900	52,963	314,486	7,473,766	439,183	724,426		**9,325,724**	400,673	50,638	912,739	7,010,422	325,856	862,462		**9,562,790**	237,066	2.5%
Bangor University	207,952	42,402	346,148	7,695,873	777,029	1,051,726		**10,121,130**	134,137	67,523	964,096	7,218,736	828,586	1,078,736		**10,291,815**	170,684	1.7%
Cardiff University	1,321,634	405,409	12,087,212	42,430,690	3,379,390	1,377,862		**61,002,197**	1,357,138	417,187	13,300,703	39,796,996	3,353,449	1,342,846		**59,568,319**	-1,433,877	-2.4%
University of Wales Trinity Saint David [7]	2,041,451	359,136	125,177	523,832	28,832	871,787		**3,950,215**	1,805,275	364,183	537,495	491,840	12,919	858,116		**4,069,828**	119,613	3.0%
Swansea University	638,420	298,552	3,393,059	14,658,050	1,462,178	1,141,907		**21,592,166**	416,853	240,365	4,653,769	13,749,083	1,531,337	1,282,428		**21,873,835**	281,669	1.3%
Cardiff Metropolitan University	449,863	204,566	254,320	1,135,681	148,817	777,784		**2,971,029**	434,888	262,617	796,395	1,065,119	153,696	702,706		**3,415,420**	444,391	15.0%
Wrexham Glyndŵr University	2,249,003	263,720	92,781	229,196		473,143		**3,307,843**	2,071,532	295,713	366,858	214,955		447,851		**3,396,909**	89,067	2.7%
Open University in Wales	8,533,326	1,882,483				396,595	1,655,490	**12,467,895**	10,133,328	2,511,667				288,794	1,655,490	**14,589,278**	2,121,384	17.0%
Total [4]	**20,284,810**	**4,752,920**	**20,146,939**	**75,777,344**	**6,486,883**	**7,500,000**	**2,240,730**	**137,189,625**	**21,059,838**	**5,324,357**	**26,116,024**	**71,077,344**	**6,486,883**	**7,500,000**	**2,240,730**	**139,805,177**	**2,615,551**	**1.9%**

	Allocations 2019/20 [1] (£)								Allocations 2020/21 [1] (£)								Change 2019/20 to 2020/21 (£)	Percentage change 2019/20 to 2020/21
FE Institutions	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Innovation and engagement funding[6] (£)	Mitigation funding and additional performance element funding[5] (£)	**Total 2019/20[4] (£)**	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Innovation and engagement funding[6] (£)	Mitigation funding and additional performance element funding[5] (£)	**Total 2020/21[4] (£)**		
Grŵp Llandrillo Menai	694,344	170,195	7,442					**871,981**	780,582	170,136	23,615					**974,332**	102,351	11.7%
Grŵp NPTC Group	101,313	20,434	1,924					**123,671**	146,159	31,985	7,430					**185,574**	61,903	50.1%
Gower College Swansea	61,396	29,386						**90,782**	44,801	27,512						**72,313**	-18,469	-20.3%
Total [4]	**857,054**	**220,015**	**9,366**	**0**	**0**	**0**	**0**	**1,086,435**	**971,543**	**229,633**	**31,045**	**0**	**0**	**0**	**0**	**1,232,220**	**145,785**	**13.4%**
Total HEIs and FEIs [4]	**21,141,863**	**4,972,934**	**20,156,305**	**75,777,344**	**6,486,883**	**7,500,000**	**2,240,730**	**138,276,060**	**22,031,381**	**5,553,990**	**26,147,069**	**71,077,344**	**6,486,883**	**7,500,000**	**2,240,730**	**141,037,397**	**2,761,337**	2.0%

[1] Mae'r dyraniadau a nodir yma yn lleoli darpariaeth HCA (SAC) yn y sefydliad sy'n cyflenwi [2] Mae premiymau'n cynnwys y premiwm mynediad a chadw (cwrs gradd rhan-amser), y premiwm cyfrwng Cymraeg (cwrs gradd rhan-amser) a'r premiwm anabledd (cwrs gradd rhan-amser, cwrs ôl-radd a addysgir rhan-amser ac amser llawn, ac ymchwil ôl-radd rhan-amser ac amser llawn). [3] Dyraniadau premiwm cwrs gradd amser llawn/TAR yw'r premiwm pynciau drud, y premiwm pynciau cost uwch a'r premiwm anabledd. [4] Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n cyfateb yn union yn sgil talgrynnu. [5] Mae cyllid lliniarol wedi'i ddyrannu i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, am eu bod mewn sefyllfa unigryw yn derbyn cyllid rhan-amser yn unig, a dim incwm o'r cynnydd mewn ffioedd amser llawn o dan y gyfundrefn newydd. Gweler paragraffau 66 a 67 y cylchlythyr. Dyfernir cyllid ychwanegol i Brifysgol De Cymru am yr elfen berfformiad yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru. Gweler paragraff 68 y cylchlythyr. [6] Mae cyllid arloesi ac ymgysylltu yn cynnwys Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ym mlwyddyn academaidd 2020/21 a Chronfa Datblygu'r Gallu i Arloesi ym mlwyddyn academaidd 2019/20. [7] Mae Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn cynnwys Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Nodiadau Technegol

1. Mae manylion llawn y dyraniadau ar wefan CCAUC o dan Cyhoeddiadau – Cylchlythyrau – Dyraniadau Cyllid CCAUC 2020/21 (Cylchlythyr W20/20HE).

Adolygiad Diamond: Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllido Myfyrwyr yng Nghymru gan yr Athro Syr Ian Diamond.

Adolygiad Reid: Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru gan yr Athro Graeme Reid.

Ymgyngoriadau cyllid CCAUC :

24 Mai 2019: Ymgynghoriad ar weithredu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, gwerth £15 miliwn

1 Hydref 2019: Ymgynghoriad ar ddyrannu £12 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21

Cyllideb ac addasiadau cyllido Llywodraeth Cymru

2. Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu ei chyllideb i ni ar sail blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae CCAUC yn dosbarthu cyllid yn ôl blwyddyn academaidd. Gall dyraniadau i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach gael eu haddasu yn ystod y flwyddyn os bydd ein cyllideb ni gan Lywodraeth Cymru yn newid.

3. Cynyddodd dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 ers cyhoeddi'r dyraniadau gwreiddiol ym mis Mehefin 2019, gan fod CCAUC wedi derbyn tri atodiad diwygiedig i'r llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2019, Rhagfyr 2019 a Ionawr 2020. Roedd y dyraniadau hynny hefyd yn cynnwys nifer o addasiadau cyllido i gyllideb blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd y rhain yn darparu cyllid ychwanegol i CCAUC fynd i'r afael â blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru, a chyllid ychwanegol i ddarparwyr AU. Effaith net y newidiadau hyn yn ystod y flwyddyn, ynghyd â dwyn cyllid ar gyfer rhai mentrau ymlaen o'r flwyddyn gynt, oedd cynnydd cyffredinol o £31.7 miliwn mewn cyllid yn erbyn y dyraniadau gwreiddiol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

4. Seilir y gyllideb ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 ar gyfran o'r gyllideb sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, a chyfran o'r gyllideb ddangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Cyfanswm y dyraniad cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 yw £171.5 miliwn.

5. Nid yw'r dyraniadau cyllido yn y datganiad i'r wasg hwn nac yn y cylchlythyr cysylltiedig yn adlewyrchu unrhyw addasiadau cyllid posib – cynyddu neu ostwng - a wneir yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i gyllideb CCAUC ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Os gwneir

unrhyw addasiadau, byddant yn arwain at ddiwygio'r dyraniadau unigol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Hefyd, os yw cyllideb blwyddyn ariannol 2021-22 yn wahanol i swm tybiedig y dyraniad hwn, ceir effaith ar yr adnoddau sydd ar gael i ddarparwyr addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2020/21 a'r dyraniadau cysylltiedig.

6. Mae cyllid **addysgu ac ymchwil cylchol** yn seiliedig ar gyfrifiadau ar gyfer pob darparydd drwy ddefnyddio ein methodoleg cyllido hirsefydledig a datblygiadau yr ymgynghorwyd arnynt yn ystod 2018/19 i gyflwyno cyllid ar gyfer darpariaeth gost uwch (gweler cylchlythyr W18/24HE).

7. Ar ôl i Lywodraeth Cymru weithredu argymhellion adolygiad Diamond o gyllido addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr, a chyn argyfwng Covid-19, disgwyliwyd y byddai incwm CCAUC yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall yn y dyfodol, hyd ddiwedd y Llywodraeth gyfredol.

Dyraniadau cyllido a blaenoriaethau

8. Mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i ddarparwyr addysg uwch yn parhau i gael ei ddyrannu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae CCAUC yn targedu gweithgareddau (fel gwarchod y ddarpariaeth ran amser, cynnal y ddarpariaeth cost uwch, gwobrwyo rhagoriaeth ym maes ymchwil a recriwtio a chadw myfyrwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel) na fyddai modd i system gyllido eu cyflawni o ddibynnu ar ffioedd dysgu cyrsiau gradd amser llawn yn unig.

9. Yn benodol, mae CCAUC yn targedu cyllid yn y meysydd canlynol:

- Ymchwil ansawdd (QR), sy'n canolbwyntio ar gefnogi ymchwil ar y lefelau uchaf o ran perfformiad, er mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau i allu cystadlu ar y blaen; ac arloesi ac ymgysylltu.

- gwarchod, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, y cyllid addysgu cyrsiau gradd rhan-amser ar lefel sector. Mae CCAUC yn parhau i gyllido drwy gyfrwng y dull cyllido seiliedig ar gredydau ar gyfer cyrsiau rhan-amser ym mlwyddyn academaidd 2020/21.

- premiwm pynciau drud ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn mewn meddygaeth glinigol/deintyddiaeth a chyrsiau conservatoire y celfyddydau perfformio. Mae hyn yn ychwanegol at y ffi o £9,000 fesul myfyriwr y bydd darparwyr yn ei dderbyn fesul myfyriwr ar gyfer y cyrsiau hyn. Mae dyraniadau sefydliadol ar gyfer pynciau drud yn ddarostyngedig i dal uchafswm, sy'n seiliedig ar gwotâu neu drefniadau cyllido y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

- premiwm pynciau cost uwch, i gynnwys cyrsiau gradd amser llawn mewn deintyddiaeth a meddygaeth anghlinigol, gwyddoniaeth a pheirianneg, technoleg, gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura.

Cyllido Ymchwil Ansawdd (QR)

10. Mae'r cyllid ar gyfer ymchwil ansawdd (QR) yn ystyried ansawdd a swm yr ymchwil yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014. Mwy o wybodaeth: www.hefcw.ac.uk/policy_areas/research/funding_research_cy.aspx

11. Mae dyraniadau QR blwyddyn academaidd 2020/21 fesul prifysgol i'w gweld yn Nhabl 2a y cylchlythyr ac maent yn seiliedig ar yr un fformiwla â blwyddyn academaidd 2019/20.

12. Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2014) yw'r system ledled y DU ar gyfer asesu ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU gan ddefnyddio panel o arbenigwyr mewn meysydd pwnc academaidd unigol, sy'n asesu ansawdd, effaith ac amgylchedd cyflwyniadau ymchwil sefydliadau. Mae'n cael ei gynnal ar y cyd gan y pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU. Cwblhawyd y Fframwaith cyntaf yn 2014 (gan ddisodli'r Ymarfer Asesu Ymchwil blaenorol). www.ref.ac.uk/. Ceir adroddiad ynghylch ymarfer y fframwaith nesaf yn 2021.

13. Mae Tabl 6 yn cymharu â dyraniadau cyllido cylchol blwyddyn academaidd 2019/20 fesul sefydliad.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

14. Mae CCAUC wedi monitro effaith gyffredinol y gostyngiadau cyllido yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar y Brifysgol Agored yng Nghymru, gan nad oes gan y Brifysgol Agored unrhyw incwm o ffioedd israddedig llawn amser (na chyrsiau ôl-radd llawn amser) i wneud iawn am unrhyw ostyngiadau mewn llinellau cyllidebol eraill. Eleni bydd CCAUC unwaith eto'n darparu cyllid o £1.655 miliwn i'r Brifysgol Agored, yr un swm ag a roddwyd yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, i gydnabod y cyllid strategaeth sydd wedi'i golli, y cyllid premiwm sydd wedi'i golli a'r cyllid ôl-radd rhan amser sydd wedi'i golli. Gan y bydd y Brifysgol Agored yng Nghymru'n elwa ar ffrydiau cyllido newydd, fel cyllid arloesi ac ymgysylltu, a chan fod CCAUC yn ariannu twf mewn darpariaeth ran-amser, bydd y sail resymegol ar gyfer y swm yn cael ei hadolygu ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Am CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion a darparwyr eraill dynodedig. Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch, ac yn defnyddio ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i roi blaenoriaethau

Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith, er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.